



## **Grantiau Gwirfoddoli Ymhlith Pobl Ifanc – GwirVol 2009-2010 'Cyfleoedd' a 'Hyrwyddo'**

### **All eich mudiad annog mwy o bobl ifanc i wirfoddoli?**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £405,000 trwy WCVA i gefnogi prosiectau a fydd yn ysgogi newid sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gwirfoddoli, ac amrywiaeth gwirfoddolwyr ifanc.

Nod cynllun newydd Grantiau Gwirfoddoli ymhlith Pobl Ifanc - GwirVol, yw cefnogi'r gwaith o ddarparu a hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli newydd gan fudiadau trydydd sector yng Nghymru, yn enwedig i bobl ifanc dan anfantais. Mae pecynnau ymgeisio ar wahân ar gael ar gyfer grantiau 'Cyfleoedd' neu 'Hyrwyddo'.

#### **Pobl ifanc sy'n cael blaenoriaeth:**

Mae'r cynllun grant yn ceisio rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd gydag ystod eang o bobl ifanc (16 - 25 oed), ac ar eu cyfer, yn enwedig:

- Pobl ifanc o gymunedau difreintiedig: yn benodol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl ifanc a chanddynt anabledau corfforol neu anabledau dysgu
- Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed

#### **Faint sydd ar gael?**

- **'Cyfleoedd'**: hyd at **£10,000** o nawdd prosiect ar gyfer gweithgareddau a fydd yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau gwirfoddoli newydd ac arloesol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed - naill ai gyda'ch mudiad eich hun neu gyda mudiad arall.
- **'Hyrwyddo'**: bydd hyd at **£5,000** o nawdd prosiect yn hyrwyddo gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, ac ar eu cyfer, ee drwy ddigwyddiadau hyrwyddo, gwefannau, arddangosfeydd neu ymweliadau.

Rhaid i chi allu rhoi disgrifiad clir o sut y byddwch yn tynnu sylw pobl ifanc ac yn eu denu; yn enwedig y rheini sydd dan anfantais neu wedi'u heithrio; sut y byddwch yn mesur llwyddiant a sut y byddwch yn gwario'r arian

Rhaid cwblhau'r holl brosiectau a rhoi cyfrif amdanynt erbyn **31 Mawrth 2011**. Rhaid adalu unrhyw nawdd sydd heb ei wario erbyn y dyddiad hwnnw.

#### **Pryd gallwch wneud cais?**

Rhaid i bob cais cyflawn ar gyfer y rownd hon, gyda **phob** dogfen ategol, ddod i law erbyn

**30 Mehefin 2009 fan hwyraf.**

**Ni ystyrir ceisiadau hwyr.**

Mae pecynnau ymgeisio ar gael gan Ddesg Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk), neu anfonwch e-bost at [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)